

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD  
CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 19/01/2016

**PWNC / SUBJECT**

Eitem 9: Ymgynghoriad ar Ddyfodol Cartref y Frondeg

*Item 9: Consultation on the Future of the Frondeg Home*

---

**PENDERFYNIAD / DECISION**

1. Datblygu Opsiwn 5, sef model llety newydd ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu ar safle Y Frondeg.
  2. Dod â defnydd cartref preswyl cofrestredig Y Frondeg i ben, yn dilyn cwblhau'r datblygiad llety newydd.
  3. Trosglwyddo'r safle i bartner gweithredol e.e. cymdeithas tai er cydweithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r model llety newydd.
1. *Develop Option 5, namely a new accommodation model for adults with learning disabilities on Y Frondeg site.*
  2. *Bring the use of Y Frondeg registered residential home to an end, following the completion of the new accommodation development.*
  3. *Transfer the site to a housing association partner to work in partnership to develop the new accommodation model.*

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / REASON FOR THE DECISION**

Ers 2013 bu'r Cyngor yn cyd-drafod gyda defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a staff cartref preswyl cofrestredig Y Frondeg, ac â'r gymuned leol, ynglŷn â'u dyheadau am ddyfodol y gwasanaeth i oedolion ag anabledd dysgu. Yn dilyn y gwaith hwn ac ymchwil pellach gan swyddogion adnabuwyd 6 opsiwn i'w hystyried ar gyfer dyfodol darpariaeth ar y safle.

Penderfynodd y Cabinet ar 14 Gorffennaf 2015 i ymgynghori'n ffurfiol ar ddyfodol cartref Y Frondeg. Yr opsiwn a ffafriwyd gan y Cyngor oedd Opsiwn 5, sef datblygu model llety newydd ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu ar safle'r Frondeg.

---

---

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet, cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar ddyfodol cartref preswyl Y Frondeg, rhwng 14 Medi 2015 hyd at 30 Hydref 2015, er mwyn canfod barn y budd-ddeiliaid a'r cyhoedd ar Opsiwn 5. Cafwyd cyfle yn yr ymgynghoriad i roi barn ar y 6 opsiwn a adnabuwyd.

Mae canlyniad yr ymgynghoriad yn dangos ymateb cymysg i'r cynnig i ddatblygu model lletya modern a phwrpasol ar gyfer 16 oedolyn gydag anabledd dysgu.

Cafwyd ymateb gan 57 unigolyn i'r holiadur gyda mwyafrif sylweddol sef 47 (82 %) o'r ymatebwyr yn cefnogi opsiwn 5. 5 (8.8%) o'r ymatebwyr oedd yn cefnogi opsiwn 2, 1 (1.8%) yn cefnogi opsiwn 4 ac 1 (1.8%) yn cefnogi opsiwn gwahanol na gynigwyd gyda 3 heb ateb.

Roedd yr ymgynghoriad ffurfiol yn gofyn am sylwadau a barn y budd-ddeiliad ar yr opsiwn a ffafrir gan y Cyngor. Tra roedd cefnogaeth gan nifer i ddatblygu gwasanaeth pwrpasol roedd hefyd nifer o sylwadau yn mynegi pryder gyda'r model newydd. Derbyniwyd sylwadau yn canmol y ddarpariaeth yn Y Frondeg gyda nifer yn pryderu am effaith unrhyw newid. Cafwyd 11 ymateb gan deulu defnyddwyr gwasanaeth Y Frondeg, roedd 5 yn cefnogi opsiwn 5, 5 yn cefnogi opsiynau i addasu Y Frondeg ag un heb fynegi barn.

Buasai addasiadau i gartref Y Frondeg yn golygu buddsoddiad sylweddol ond o weithredu hyn ni fuasai'r gwasanaeth yn cyd-fynd gyda strategaeth Cymru na gweledigaeth Y Cyngor.

Bydd angen sicrhau fod sylw yn cael ei roi i'r holl faterion sydd wedi eu codi cyn ag yn ystod yr ymgynghoriad.

Gwnaed yr argymhelliad i ffafrio Opsiwn 5 ar sail y canlynol:

- Mae cartref cofrestredig Y Frondeg yn fodel traddodiadol o ddarparu Gwasanaeth.
  - Byddai angen buddsoddiad sylweddol i'r adeilad presennol.
  - Nid yw'r model presennol yn cyd-fynd â Pholisi Llywodraeth Cymru na gweledigaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer gwasanaethau ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu.
  - Byddai Opsiwn 5 yn cydymffurfio ag egwyddorion Polisiâu Anabledd Dysgu Llywodraeth Cymru, gweledigaeth Cyngor Gwynedd, a gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)2014. Byddai hefyd yn cynnig gwasanaeth a all fod yn fwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, yn fwy cost effeithiol ac yn rhoi ystyriaeth i'r her ariannol sy'n wynebu'r Cyngor.
-

- 
- Byddai Opsiwn 5 yn cyfrannu tuag at gynllunio ar gyfer cynnydd mewn galw i'r dyfodol ac yn rhoi cyfle i rai defnyddwyr sydd ar hyn o bryd yn derbyn gofal yn all-sirol i ddychwelyd i fyw i Wynedd.
  - Byddai opsiwn 5 yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu arbenigedd yng Ngwynedd i gefnogi unigolion gydag anghenion dwys a chymhleth.

Yn unol â'r ddyletswydd dan y **Ddeddf Cydraddoldeb 2010** cynhaliwyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb ynglŷn â'r cynnig.

Wedi ystyriaeth lawn, deuir i'r casgliad fod y Strategaeth a'r cynllun gweithredu yn cyfarch yr ardrawiadau posib.

Yn ogystal, mae trefniadau mewn lle i sicrhau fod y sefyllfa'n cael ei monitro a'u hadolygu'n rheolaidd. O ganlyniad, rydym yn hyderus fod canfyddiadau'r asesiad yn gyfredol ac yn berthnasol i'r penderfyniad a geisir.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2016 bwriedir sefydlu Grŵp Ffocws gyda phrif fudd-ddeiliad er mwyn cyd-gynhyrchu darpariaeth addas a chyfrannu tuag at lunio cynlluniau llety pwrpasol ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu ar y safle. Bydd y Grŵp Ffocws yn fodd i lunio gwasanaeth sy'n sicrhau llais a defnyddiwr, rhoi'r person yn ganolog a datblygu gwasanaeth arloesol ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu yng Ngwynedd.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i adnabod y darpar denantiaid y byddai'r datblygiad newydd yn addas ar eu cyfer. Bydd lle i bob un preswylydd presennol Y Frondeg yn y datblygiad newydd ynghyd a rhai unigolion mewn lleoliadau all-sirol ar hyn o bryd ac unigolion a phobl ifanc o Wynedd fydd angen llety i'r dyfodol.

Mae yn allweddol pwysleisio'r ffaith na ellir dod â defnydd presennol cartref y Frondeg i ben hyd nes y byddai'r datblygiad newydd wedi cael ei gwblhau.

*Since 2013, the Council has been holding discussions with Y Frondeg registered residential home service users, families and staff, and with the local community, about their aspirations for the future of the service for adults with a learning disability. Following this work and further research by officers, 6 options were identified to be considered as future provision on the site.*

*On 14 July 2015, the Cabinet decided to hold a formal consultation on the future of Y Frondeg home. The option favoured by the Council was Option 5, namely to develop a new accommodation model for adults with learning disabilities on the Frondeg site.*

*Following the Cabinet's decision, a formal consultation was held on the*

---

---

*future of Y Frondeg residential home, between 14 September 2015 and 30 October 2015, in order to find the stakeholders' and the public's opinion on Option 5. Five other options were also noted, and an opportunity was had in the consultation to express a view on them.*

*The outcome of the consultation showed a mixed response to the proposal to develop a modern and appropriate model for accommodating 16 adults with learning disabilities.*

*Responses to the questionnaire were received from 57 individuals with a convincing majority of 47 (82%) of respondents supporting option 5. 5 (8.8%) of the respondents who supported option 2, 1 (1.8%) supporting option 4 and 1 (1.8%) supporting different options than offered with 3 unanswered.*

*The formal consultation was seeking views and opinions of the stakeholders on the preferred option by the Council. Whilst there was support from many to developing a dedicated service there were also a number of comments expressing concern with the new model. Comments were received commending the provision at Y Frondeg with many concerned about the effect of any change. There were 11 responses from families of Y Frondeg services users; 5 supported option 5, 5 supported options to adapt Y Frondeg and one who did not express an opinion.*

*Modifications to Y Frondeg home would mean a significant investment but in implementing this, the service would not correspond with the Wales strategy or the Council's vision.*

*It will be necessary to ensure that attention is given to all the issues that have been raised before and during the consultation.*

*The recommendation to favour Option 5 was made on the following basis:*

- Y Frondeg registered care home is a traditional model of Service provision.*
  - A significant investment is required for the building.*
  - The current model does not comply with the vision of Welsh Government or Gwynedd Council for services for adults with a learning disability.*
  - Option 5 would comply with the Learning Disability policy principles of Welsh Government and Gwynedd Council, and the requirement of the Social Services and Wellbeing Act (wales) 2014. It would also offer a service which could be more sustainable for the future, cost effective and would give consideration to the financial challenge facing the Council.*
  - Option 5 would contribute towards planning for a future increase in demand, and would provide an opportunity for some service users*
-

---

*who are currently receiving care outside the county to return to Gwynedd to live.*

- *Option 5 would provide an opportunity to develop expertise in Gwynedd to support individuals with profound and complex needs.*

*In accordance with the duty under the **Equality Act 2010** an equality impact assessment regarding the proposal was undertaken.*

*Following full consideration, it is concluded that the Strategy and the action plan address the possible impacts.*

*In addition, there are procedures in place to ensure that the situation is being monitored and reviewed regularly. As a result, we are confident that the findings of the assessment are current and relevant to the decision sought.*

*By the end of March 2016, it is intended to establish a Focus Group with the main stakeholders in order to co-produce suitable provision and purposeful accommodation for adults with a learning disability on the site. The Focus Groups is a means to develop a service which ensures the voice of the service user, places the person central to the process and develop an innovative service for adults with a learning disability in Gwynedd.*

*Further work will be undertaken to identify the prospective tenants for whom the new development would be suitable. There will be a place for every existing resident of Y Frondeg at the new development along with some individuals currently in out-of-county placements and individuals and young people from Gwynedd who will require accommodation in the future.*

*It is crucial to stress the fact that it is not possible to end the existing use of Y Frondeg home until the new development has been completed.*

---

## **SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS**

*Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Lles.*

*Nodwyd y byddai trafod unrhyw drosglwyddiad i bartner angen rhoi sylw i amodau a thelerau fyddai'n gwarchod buddiannau ac amcanion y Cyngor.*

*The report submitted by the Cabinet Member for Adults, Health and Well-being was accepted.*

*It was noted that discussing any transfer to a partner would need to address the terms and conditions which would protect the interests and objectives of*

---

---

*the Council.*

---

## **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS**

### **1. Y Prif Weithredwr / Chief Executive:-**

Er nad yw newid bob amser yn hawdd, yn yr achos hwn, mae'r achos dros newid yn un amlwg sydd yn cael ei gefnogi gan y mwyafrif llethol o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Mae angen derbyn yr her hynny yn awr a symud ymlaen i'r camau allweddol o adnabod partner addas a sicrhau manylder y pecyn ariannol a fyddai'n gwireddu'r datblygiad.

*Although change is not always easy, in this case, the reason for change is obvious and is being supported by the overwhelming majority of those who responded to the consultation. We need to accept this challenge now and move on to the key steps of identifying a suitable partner and create a detailed financial package that would ensure the realization of this development.*

### **2. Swyddog Monitro / Monitoring Officer:-**

Yn dilyn cwblhau cyfnod ymgynghoriad mae'r Cabinet mewn sefyllfa i ddod i benderfyniad ar ddyfodol y cartref. Mae gofyn felly cloriannu'r holl ffactorau sydd yn berthnasol i'r penderfyniad gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chanlyniadau'r asesiad ardrawiad cydraddoldeb.

Amlygir bwriad i drosglwyddo'r safle i ddwylo partner gweithredol fel cyfrwng i wireddu'r opsiwn a ffafrir. Bydd angen gwaith pellach ar yr elfen yma wrth symud ymlaen i sicrhau fod y drefn penodi partner a'r amodau ynglŷn ag unrhyw drosglwyddiad yn gyfreithiol briodol ac yn gwarchod a hyrwyddo buddiannau'r Cyngor a'i ddisgwyliadau am y defnydd y datblygiad newydd.

*Following completion of the consultation period the Cabinet is now in a position to come to a decision as to the future of the home. It is therefore necessary to weigh up all the factors which are relevant to the decision including consultation responses and the result of the equalities impact assessment.*

*The intention to transfer the site to an operative partner is highlighted as a means of achieving the preferred option. Further work will be required on this aspect as it moves forward to ensure that the arrangements for appointing a partner and the conditions relation to any transfer are legally correct and protect and promote the interest of the Council and its expectations as to the use of the new development.*

---



---

### 3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-

Ni fu newid yn yr ystyriaethau / ffigyrau ariannol ar gyfer opsiwn 5 ers cyflwynwyd yr adroddiad blaenorol i Gabinet 14/07/15. Pryd hynny, nodais –

- Bu ystyriaeth briodol o'r achos busnes perthnasol, gyda'r arbedion £143,000 o'r buddsoddiad yn asesiad darbodus. Rhaid mentro er mwyn sicrhau'r arbedion, a bydd yn golygu buddsoddiad cyfalaf go sylweddol gan Gyngor Gwynedd er mwyn datblygu'r model llety cefnogol newydd wrth ymyl Cartref Frondeg, ac mae risg ariannol ynghlwm.
- Bydd gwireddu'r arbedion yn dibynnu ar y Gwasanaeth Anabledd Dysgu i lenwi'r unedau newydd (16 lle i gyd, gyda 10 eisoes yn Frondeg). Diau fe fydd y Cabinet awydd gofyn i'r Adran Oedolion gymryd camau priodol er mwyn lleddfu'r risg o lefydd gwag.
- Hefyd, gan fod yr ased ym mherchnogaeth ein 'partner' yn y fenter, dylid ymchwilio i drefniadau fel arwystl cyfreithiol ar i'r eiddo fod ar gael i'r pwrpas priodol, fel amod o'r 'grant' i'r 'partner'.

•  
Mae'r pwyntiau uchod yn parhau'n berthnasol ac yn allweddol i lwyddiant ariannol y fenter.

*There has been no change in the issues / financial figures for option 5 since the previous report was submitted to the Cabinet on 14/07/15. At that time, I noted -*

- *A proper consideration of the relevant business case was made, and a prudent assessment of the investment suggested savings of £143,000. We must venture in order to achieve savings, and this will involve sizeable capital investment by Gwynedd Council to develop a new model of supported accommodation near Frondeg, and a financial risk is attached to this course of action.*
- *Realising the savings will depend on the Learning Disabilities Service filling the new units (16 places in total, with 10 already in Frondeg). The Cabinet will doubtless ask the Adults Department to take appropriate steps to mitigate the risk of vacancies.*
- *In addition, since the asset is owned by our 'partner' in the initiative, arrangements such as a legal charge, to ensure that the property will be available for the appropriate purpose, should be explored, as a condition of a 'grant' to the 'partner'.*

•  
*The above points are still relevant and key to the financial success of the enterprise.*

---

**BARN YR AELOD LLEOL / VIEWS OF THE LOCAL MEMBER**

---

---

Diolch am y cyfle i ymateb. Am nifer o flynyddoedd mae trigolion Y Frondeg wedi byw mewn cartref sy'n is na'r safon byw yn y gymdeithas heddiw. Yr wyf yn credu bod hwn yn gam ymlaen i roi safon dda o fyw i'r preswylwyr , a hefyd i staff gael gweithio mewn amgylchedd modern.

*Thank you for the opportunity to respond. For several years, the residents of Frondeg have lived in a home that is sub-standard in today's society. I think this is a step forward to provide residents with a good standard of living and also for staff to work in a modern environment.*

---